YR EGLWYS yng NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

Corff Cynrychiolwyr Yr Eglwys yng Nghymru
The Representative Body of The Church in Wales

CANLLAWIAU AR REOLI NEUADDAU EGLWYS YN EFFEITHIOL

Dyddiad: 08/11/23
Fersiwn: 1.1

CANLLAWIAU AR REOLI NEUADDAU EGLWYS YN EFFEITHIOL

Lluniwyd y canllawiau hyn i helpu Cynghorau Plwyf Eglwysig[1] i reoli a chynnal a chadw adeiladau Neuaddau Eglwys yn well. I gael rhagor o arweiniad, cysylltwch â'ch Swyddfa Esgobaethol leol (a'ch Arolygydd Eglwysi os oes un ar gael), yr Archddiacon, neu Dîm Eiddo Eglwysig Corff y Cynrychiolwyr (CC) – fe welwch y manylion cyswllt ar ddiwedd y ddogfen hon.

Mae'r canllawiau hyn yn nodi deg cam ar gyfer rheoli eich Neuadd Eglwys yn effeithiol:

1. Gwirio Perchnogaeth a Ffiniau.
2. Asesu Cyflwr eich Adeilad.
3. Adolygu a rheoli gwasanaethau'r adeilad (gwresogi, goleuadau, trydan, draenio ac ati).
4. Rheoli Asbestos.
5. Cadw Pobl yn Ddiogel – Rheoli Iechyd a Diogelwch.
6. Gwirio eich Trefniadau Yswiriant.
7. Gwirio'r trefniadau ar gyfer defnyddio'r adeilad a'i hygyrchedd.
8. Cynllunio ymlaen llaw wrth wneud newidiadau i'ch adeilad.
9. Anelu at garbon sero net.
10. Adolygu eich Strategaeth.

1. Gwirio Perchnogaeth a Ffiniau
Perchnogaeth a phwy sy'n dal y gweithredoedd?

Os hoffech wneud newidiadau i'r adeilad, newid sut y caiff ei weithredu/ei ddefnyddio, neu godi arian grant tuag at waith uwchraddio ac atgyweirio, mae'n bwysig eich bod yn gwybod ar ba sail y mae'r eiddo yn cael ei ddal, a phwy yw'r perchennog cofrestredig.

Weithiau bydd eiddo yn cael ei ddal mewn Ymddiriedolaeth ar gyfer y 'Plwyf' gan Gorff y Cynrychiolwyr, bryd arall gan y Bwrdd Cyllid Esgobaethol lleol. Mae cyfyngiadau penodol ar rai adeiladau gan gyfyngu'n benodol ar y defnydd a wneir ohonynt, a gall fod cyfamodau penodol ynghlwm sy'n golygu bod cyfyngiadau ar yr hyn y gellir ei wneud yno – mae'n bwysig bod yn glir ynglŷn â'r manylion hyn.

Cysylltwch â Thîm Eiddo Eglwysig Corff y Cynrychiolwyr, yn y lle cyntaf, i gadarnhau pa gofnodion sy'n cael eu cadw gan y Corff yn ganolog, os o gwbl, a pha fanylion sy'n cael eu cadw gan y Gofrestrfa Tir.

2. Asesu Cyflwr eich Adeilad

[1] *Defnyddir y term "Cyngor Plwyf Eglwysig" yn y ddogfen hon i ddisgrifio'r corff ymddiriedolwyr eglwysig lleol sy'n gyfrifol am reoli'r neuadd. Gall y cyrff hyn hefyd gael eu hadnabod fel Cyngor yr Ardal Weinidogaeth, Cyngor yr Ardal Weinidogaeth Leol, Cyngor Bywoliaeth Reithorol, Cynhadledd Ardal Genhadaeth, neu unrhyw derm arall a ddynodir gan bolisïau esgobaethol.*

Beth yw cyflwr yr adeilad, y tir o gwmpas, y llwybrau mynediad, y maes parcio a'r ffiniau?

Mae'n bwysig bod gennych ddealltwriaeth sylfaenol o gyflwr eich neuadd. Nid oes rhaid i hyn fod mor fanwl â'r adroddiad arolwg pum mlynedd llawn ar gyfer eich eglwys, ond gall hwnnw roi fformat defnyddiol o bethau i chwilio amdanynt.

Dylech ystyried penodi syrfëwr adeiladu neu bensaer cymwysedig i arolygu'r adeilad ond dylech hefyd gynnal eich archwiliad gofalus eich hun. Edrychwch ar bob elfen a gwnewch asesiad diduedd o sut mae wedi cael ei adeiladu, ei adeiladwaith, pa mor hen ydyw, pryd y cafodd ei atgyweirio neu ei adnewyddu ddiwethaf, a pha waith y gallai fod angen i chi gynllunio i'w wneud dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.

Chwiliwch am bethau sy'n edrych yn ddiffygiol a gwnewch restr hyd yn oed os na wyddoch chi beth yw'r rheswm – yna gallwch ofyn am gyngor arbenigol ar yr hyn rydych chi wedi'i weld.

Mae canllawiau defnyddiol a pherthnasol iawn ar gael gan y Gymdeithas er Gwarchod Adeiladau Hynafol (SPAB) sy'n bennaf ar gyfer mannau addoli, ond gellir eu cymhwyso hefyd i neuaddau eglwys:

https://www.spab.org.uk/campaigning/maintenance-matters
https://www.spab.org.uk/campaigning/maintenance-co-operatives-project/mcp-fim-resources

Gall yr adeilad fod yn un rhestredig neu gall fod mewn Ardal Gadwraeth. Os yw o fewn tiroedd adeilad rhestredig (er enghraifft, mewn mynwent eglwys restredig) gellid ei ystyried yn adeilad o fewn cwrtil adeilad rhestredig, felly caiff ei gyfrif yn adeilad rhestredig hefyd. Bydd hyn o bosibl yn golygu bod angen cydsyniad adeilad rhestredig neu gydsyniad hawleb ar y gwaith i'ch adeilad. Cysylltwch ag Ysgrifennydd a/neu Arolygydd Eglwysi Pwyllgor Ymgynghorol eich Esgobaeth. Mae manylion yr adeiladau rhestredig i'w gweld ar wefan CADW:
https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cof-cymru/chwilio-cofnodion-cadw

3. Adolygu a Rheoli Gwasanaethau Adeilad (Gwresogi, Goleuadau, Trydan, Draenio ac ati)
Pa wasanaethau a chyfleustodau sydd gan eich adeilad, ydyn nhw mewn cyflwr da ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda?

Sut mae'r adeilad yn cael ei wresogi (neu'n cael ei oeri os oes gennych aerdymheru)? Ym mha gyflwr mae'r cylchedau trydanol o wifrau sefydlog a'ch offer cludadwy? Oes gennych chi larymau panig yn eich cyfleusterau toiled hygyrch, neu lifft neu ramp mecanyddol? Larwm mwg neu dân neu system chwistrellu?

Mae angen cynnal a chadw a gwasanaethu pob un o'r systemau hyn, ac eraill yn rheolaidd, ac mae hyn yn aml yn ofyniad statudol. Dylech bob amser sicrhau bod y rhain yn gyfredol a bod cofnodion yn cael eu cadw ar y safle. Cymerwch gyngor gan beirianwyr arbenigol ar eich systemau i ddeall eich rhwymedigaethau.

Dim ond peirianwyr arbenigol a chymwysedig a all ardystio eu gwaith ddylai gyflawni'r gwaith gwasanaethu a chynnal a chadw – gofynnwch i'r Swyddfa Esgobaethol neu i Dîm Eiddo Eglwysig Corff y Cynrychiolwyr am gyngor neu arweiniad os oes angen.

4. Rheoli Asbestos

Mae'n ofyniad cyfreithiol i chi reoli asbestos yn eich adeiladau. Dylid:

- Cynnal Arolwg Rheoli Asbestos (yn cynnwys cofrestr o asbestos sy'n dangos ble mae'r asbestos wedi'i leoli).
- Cynnal arolwg Adnewyddu a Dymchwel lle rhagwelir gwaith adeiladu sylweddol.
- Monitro'n rheolaidd:
    - Gwirio'r gofrestr o asbestos, o leiaf bob blwyddyn.
    - Diweddaru'r gofrestr o asbestos pryd bynnag y byddwch wedi gwneud gwaith ar ddeunyddiau asbestos.
    - Gwirio deunyddiau o leiaf unwaith y flwyddyn i wneud yn siŵr nad ydynt wedi dirywio.
    - Adolygu'n flynyddol

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn darparu canllawiau clir i berchnogion adeiladau (sef y Cyngor Plwyf at ddibenion asbestos) yn:

https://www.hse.gov.uk/asbestos/building-owner.htm

https://www.hse.gov.uk/asbestos/duty.htm

Gallwch gael arolygon ac adroddiadau asbestos yn hawdd trwy Maintenance Booker:

https://www.maintenancebooker.org.uk/services/asbestos

5. Cadw Pobl yn Ddiogel – Rheoli Iechyd a Diogelwch Asesu peryglon a datblygu Asesiadau Risg

Bydd angen i chi fod yn siŵr bod pobl sy'n defnyddio'r neuadd yn cael eu cadw'n ddiogel. Mae angen i'r Cyngor Plwyf gael Polisi Iechyd a Diogelwch ysgrifenedig yn nodi ei dull o reoli peryglon yn ei adeiladau a'i weithgareddau. Mae peryglon yn cael eu rheoli trwy asesu risg – sef proses o ystyried y tebygolrwydd y bydd peryglon yn achosi niwed, a datblygu mesurau i leihau'r risgiau.

Yn ogystal â'r risg sy'n gysylltiedig â deunyddiau sy'n cynnwys asbestos, mae'n bwysig bod asesiad risg ar gael ar gyfer yr adeilad a'r gweithgareddau a wneir yno. Trwy baratoi'r asesiad risg, dylech ystyried y mathau o weithgareddau a fydd yn cael eu cynnal yn yr adeilad – bydd pethau penodol i'w hystyried os ydych chi'n darparu gweithgareddau i blant ifanc, i bobl â dementia, i bobl sydd â chyfyngiadau symudedd, ac ati. Mae canllawiau pellach ar gael ar wefan Ecclesiastical Insurance:

https://www.ecclesiastical.com/documents/risk-assessment-guidance.pdf

https://www.ecclesiastical.com/documents/example-risk-assessment.pdf

6. Gwirio eich trefniadau yswiriant

Mae'r Cyngor Plwyf yn gyfrifol am drefnu yswiriant y neuadd a'r yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cysylltiedig. Er eich bod yn rhydd i yswirio gyda pha bynnag gwmni sydd orau gennych chi, rydym yn argymell eich bod yn yswirio trwy Ecclesiastical Insurance fel bod eich polisi ar gyfer yr eglwys a'r neuadd yn cael ei gydlynu. Mae manylion telerau ac amodau'r polisi Yswiriant Eglwysig, a chanllawiau a gwybodaeth ddefnyddiol eraill ar gael yma:

https://www.ecclesiastical.com/church/church-hall-insurance/

7. Gwirio trefniadau ar gyfer defnyddio'r adeilad a'i hygyrchedd Defnyddwyr, prydlesi a thrwyddedau

Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi datblygu templed Cytundeb Llogi i Neuaddau Eglwys ei ddefnyddio ar gyfer grwpiau allanol fesul sesiwn – mae ar gael yma:

https://churchinwales.contentfiles.net/media/documents/Hiring_Agreement_January_2022.pdf

NID yw hwn yn addas ar gyfer grwpiau allanol sy'n defnyddio'r adeilad neu rannau o'r adeilad yn llwyr at eu defnydd hwy yn yr hirdymor lle byddai'r grwpiau hynny yn rheoli ardal o'r adeilad, ei diroedd, neu'r adeilad cyfan – er enghraifft, lle mae gan feithrinfa plant ddefnydd llwyr o rai ystafelloedd yn yr adeilad ac nad oes neb arall yn gallu defnyddio'r gofod ar adegau eraill. Yn yr achosion hynny, cysylltwch â Thîm Eiddo Eglwysig Corff y Cynrychiolwyr am arweiniad pellach. Efallai y bydd angen prydles fwy ffurfiol mewn amgylchiadau o'r fath; gall y cytundeb anghywir olygu rhoi hawliau anfwriadol i feddianwyr.

Hygyrchedd

Mae gan yr Eglwys yng Nghymru a'i holl rannau cyfansoddiadol rwymedigaethau – cyfreithiol a moesol – i sicrhau bod ein hadeiladau a'n gweithgareddau yn rhesymol hygyrch i bawb. Gall hyn gynnwys darparu ar gyfer pobl â symudedd cyfyngedig (trwy ddarparu offer fel ramp i mewn ac allan, cyfleusterau toiled hygyrch, ac ati), ond hefyd i'r rhai sydd ag amhariadau eraill e.e. amhariad ar y golwg a'r clyw.

Dylid ystyried hyn fel rhan o'ch adolygiad o'r adeilad, ac yn enwedig pan fydd unrhyw newidiadau ar droed – mae Rheoliadau Adeiladu yn ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw waith a wneir yn ystyried hyn. Bydd eich cynghorwyr proffesiynol yn gallu cynorthwyo mewn amgylchiadau o'r fath.

Mae canllawiau defnyddiol ar wefan Church Care Eglwys Loegr:

https://www.churchofengland.org/resources/churchcare/advice-and-guidance-church-buildings/accessibility

Mae hyn wedi'i ymwreiddio ym Mholisi Cyfle Cyfartal yr Eglwys yng Nghymru: https://www.churchinwales.org.uk/cy/clergy-and-members/clergy-handbook/equal-opportunities-policy/ ac yn neddfwriaeth Deddf Cydraddoldeb Llywodraeth y DU 2010: https://www.gov.uk/guidance/equality-act-2010-guidance

8. Cynllunio ymlaen llaw wrth wneud newidiadau i'ch adeilad

Dylid gofyn am gyngor proffesiynol bob amser cyn cychwyn ar brosiect adeiladu – yn ddelfrydol gan syrfëwr adeiladu neu bensaer cymwys a phrofiadol. Dylai'r Tîm Eiddo Esgobaethol lleol allu eich helpu i ddod o hyd i gynghorydd addas. Dylai'r cynghorydd helpu i ddatblygu manyleb addas a dyluniad, a dylai sicrhau'r cydsyniadau a'r gymeradwyaeth angenrheidiol (hawleb os oes angen, cydsyniad adeilad rhestredig, caniatâd cynllunio, a chymeradwyaeth y rheoliadau adeiladu, er enghraifft), cael dyfynbrisiau ar gyfer y gwaith, a goruchwylio'r gwaith.

Cyn cychwyn ar unrhyw gynllun, yn ogystal â chael cydsyniadau statudol, bydd angen i chi sicrhau cytundeb Pwyllgor yr Eglwys/y Cyngor Plwyf Eglwysig (gan gynnwys yr Ardal Weinidogaeth/yr Ardal Weinidogaeth Leol). Mae'r rhan fwyaf o'r canllawiau arfer da/arferion gorau sy'n ymwneud â phrosiectau eglwysig hefyd yn berthnasol i neuaddau eglwys:

https://churchinwales.contentfiles.net/media/documents/Property_Dept_-_Church_Building_Projects_and_Safety.pdf

https://churchinwales.contentfiles.net/media/documents/Property_Dept_-_Managing_Small_Church_Building_Projects.pdf

https://churchinwales.contentfiles.net/media/documents/Property_Dept_-_Managing_Large_Church_Building_Projects.pdf

Rydych chi'n debygol o ymgeisio am gymorth grant ar gyfer eich prosiect. Mae rhai cyllidwyr grant yn barod i gynnig cefnogaeth ar gyfer prosiectau penodol i uwchraddio cyfleusterau cymunedol, fel Neuaddau Eglwys, yn enwedig os yw'n cynyddu ac yn gwella mynediad at wasanaethau i rai a fyddai fel arall yn cael eu hatal. Dylech bob amser ymgynghori â'ch Pwyllgor Eglwysig a'ch Ardal Weinidogaeth/Ardal Weinidogaeth Leol cyn ymrwymo i becyn cyllido oherwydd fel rheol bydd yna rwymedigaethau sydd angen i Ymddiriedolwyr Elusen yr Ardal Weinidogaeth/Ardal Weinidogaeth Leol wybod amdanynt.

Efallai y bydd cyllidwyr hefyd yn gofyn am lythyr cydsynio gan ddeiliad teitl cyfreithiol yr adeilad (Corff y Cynrychiolwyr neu'r Bwrdd Cyllid Esgobaethol), felly gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi gwybod iddynt am y prosiect a'r cais am grant mewn da bryd.

9. Anelu at garbon sero net Effeithlonrwydd ynni

Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi ymrwymo i gyflawni Carbon Sero Net erbyn 2030. Mae hyn yn cynnwys neuaddau eglwys, eglwysi, persondai, a'n gweithgareddau amrywiol sydd wedi'u lleoli yn ein hadeiladau.

Mae offer a chanllawiau defnyddiol a hwylus ar dudalen we Newid Hinsawdd yr Eglwys yng Nghymru sydd ar gael yma: https://www.churchinwales.org.uk/cy/about-us/our-campaigns/environment/

Defnydd o systemau gwresogi tanwydd ffosil yw'r ffynhonnell fwyaf o allyriadau carbon o adeiladau ein neuaddau eglwys. Os ydych chi'n rhagweld y bydd angen adnewyddu eich offer gwresogi yn y dyfodol agos, dechreuwch feddwl am yr hyn y gallech ei ddefnyddio cyn iddo dorri i lawr! Siaradwch â'ch Arolygydd Eglwysi Esgobaethol, Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol eich Esgobaeth, Hyrwyddwr Newid Hinsawdd Corff y Cynrychiolwyr a Thîm Eiddo Eglwysig Corff y Cynrychiolwyr am gyngor, ac ystyriwch ymgysylltu ag arbenigwr addas i adolygu eich defnydd o ynni a'r opsiynau a allai fod ar gael i chi.

Gall Tystysgrif Perfformiad Ynni masnachol (EPC) fod yn ffordd ddefnyddiol a chymharol rad o gael trosolwg o'r adeilad a sut y gellir ei wneud yn fwy effeithlon. Dylech anelu at gael sgôr o C neu uwch ar eich Tystysgrif.

Mewn adeilad cymharol fodern, a allai fod heb ei restru, mae'r opsiynau ar gyfer insiwleiddio ac atal drafft yn ehangach ac yn fwy amrywiol nag ar gyfer neuadd eglwys restredig – mae adeilad sydd wedi'i gynnal yn dda, sy'n sych ac yn rhydd o ddrafft eisoes yn mynd i fod yn fwy carbon effeithlon nag un mewn cyflwr gwael sy'n llaith a drafftiog! Mae'n bwysig bod cyngor priodol yn cael ei gymryd i sicrhau bod modd rhedeg unrhyw system newydd yn fforddiadwy ac effeithiol.

Ar gyfer y safleoedd hynny sydd â defnydd ynni cymharol isel, a bod/neu fod yr offer presennol mewn cyflwr da, parhewch i gynnal eich offer a siaradwch â'r Swyddfa Esgobaethol a chydweithwyr yng Nghorff y Cynrychiolwyr am y cynlluniau Gwrthbwyso Carbon a argymhellir.

Dylech yn gyntaf archwilio'r Fframwaith Carbon Sero Net sydd ar gael yma:

https://churchinwales.contentfiles.net/media/documents/2205_-_THE_NET_ZERO_CARBON_FRAMEWORK_OF_THE_CHURCH_IN_WALES_-_FINAL_-_2022.pdf

a'r Pecyn Cymorth Ynni sydd ar gael yma: https://eft-wales.parishreturns.info/

10. Adolygu eich Strategaeth Ydy'ch neuadd eglwys yn ased ar gyfer cenhadaeth neu'n faich?

Rydych chi'n cadw eiddo naill ai'n uniongyrchol fel y gellir cynnal cenhadaeth ac allgymorth yno, neu fel fel y gall helpu i godi arian i ariannu cenhadaeth ac allgymorth.

Os yw'ch neuadd yn eich galluogi i estyn allan i'ch cymuned i gyflwyno ystod o weithgareddau i bobl na fyddech chi fel arall yn dod i gysylltiad â nhw, a/neu yn helpu i godi digon o arian i dalu am y costau ac yn cyfrannu at gostau rhedeg yr eglwys, yna

gwych! Ond weithiau, fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y gall rhedeg neuadd fynd yn faich, ac nad yw'r incwm prin yn ddigon i dalu'r costau cynnal a chadw. Mae'n bwysig eich bod chi'n asesu'n rheolaidd a yw'r neuadd yn gwella bywydau eich cymuned eglwysig a'ch cenhadaeth ac allgymorth, neu a yw'n dreth ar eich amser a'ch adnoddau.

Pan fo neuadd wedi mynd yn faich neu pan ellir cynnal y gweithgareddau yn adeilad eich eglwys, mae'n bryd ystyried ei gwerthu, neu ei phrydlesu i grŵp cymunedol arall i'w rhedeg. Cysylltwch â'ch corff Ymddiriedolwyr yn yr Ardal Weinidogaeth/Ardal Weinidogaeth Leol, eich Archddiacon, y Swyddfa Esgobaethol a'r Tîm Eiddo Eglwysig yng Nghorff y Cynrychiolwyr os ydych yn ystyried newid o'r fath. I gau neu osod neuadd, gan amlaf rhaid cael penderfyniad gan Bwyllgor yr Eglwys a Phwyllgor yr Ardal Weinidogaeth/Ardal Weinidogaeth Leol, cefnogaeth eich Archddiacon, a chytundeb gan eich Bwrdd Eiddo Esgobaethol. Os yw'r gweithredoedd yn cael eu dal gan Gorff y Cynrychiolwyr, bydd angen i Bwyllgor Eiddo'r Dalaith gytuno i'r newid arfaethedig hefyd.

Mae nodyn canllaw pellach yma:

https://churchinwales.contentfiles.net/media/documents/Church_Hall_Closure_and_Disposal_Guidance_Note_Version_1.1._March_2022_ENGLISH1.pdf

Manylion cyswllt:
Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru
2 Sgwâr Callaghan
Caerdydd
CF10 5BT
Ffôn: 02920 348200

E-bost: property@churchinwales.org.uk